**Adroddiad ar**

**Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru**
**Ysgol Dysgu Gydol Oes**
**Heol Dean**
**Bangor**
**LL57 1UT**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru ar 1 Ebrill 2006 yn un o chwe chanolfan ranbarthol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i arwain y maes.

Mae'r ganolfan yn gyfrifol am y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion ledled gogledd Cymru, sy'n cynnwys Ynys Môn, Gwynedd (ac eithrio Meirionnydd) a Chonwy yn y gorllewin, a Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam yn y dwyrain. Mae gan y rhanbarth boblogaeth o 608,592.

Yn 2006 etifeddodd y ganolfan 11 o ddarparwyr ar draws Gogledd Cymru. Erbyn hyn, dim ond wyth darparwr sydd bellach yn gwasanaethu'r ganolfan oherwydd uno colegau Glannau Dyfrdwy a Llysfasi ac uno colegau Llandrillo a Meirion Dwyfor. Rhoddodd y ganolfan y gorau i gytundebu gyda Phrifysgol Glyndŵr am resymau strategol. Yr wyth darparwr presennol yw Prifysgol Bangor, Popeth Cymraeg, Coleg Harlech / Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, Nant Gwrtheyrn, Coleg Llandrillo (gan gynnwys Coleg Meirion Dwyfor), Coleg Menai, Coleg Iâl, a Choleg Glannau Dyfrdwy (gan gynnwys Coleg Llysfasi). Yn ogystal â'r bartneriaeth ffurfiol gyda'r wyth darparwr mae'r ganolfan yn gweithio mewn partneriaeth â'r nifer fawr o sefydliadau a fforymau ledled gogledd Cymru.

Hyd at Awst 2011, roedd strwythur rheoli'r ganolfan yn wahanol i'r canolfannau arweiniol eraill Cymraeg i oedolion gan fod rheolaeth y ganolfan ar wahân i'r ddarpariaeth. O'r cychwyn, bu perthynas waith agos â'r Uned Cymraeg i oedolion ym Mhrifysgol Cymru Bangor ar bob agwedd o'i gwaith. Unwyd y ganolfan a'r Uned yn dilyn adolygiad academaidd ac ymgynghoriad â'r partneriaid ac â Llywodraeth Cymru yn Awst 2011. Gweithredwyd yr uno i sicrhau rheolaeth effeithiol a rhesymegol o ddarpariaeth Prifysgol Bangor ac i sicrhau gwerth am arian.

Mae'r ganolfan yn gyfrifol am ddarpariaeth, cyllid, data, ansawdd, cefnogaeth anffurfiol, hyfforddiant a marchnata, a sicrhau darpariaeth sylfaenol trwy gyfrwng is-gytundebu gyda darparwyr ar draws y rhanbarth.

Yn ystod 2009-2010, cafodd y ganolfan gyfanswm o 10,072 o ymrestriadau, sydd yn gynnydd o 8% ar niferoedd 2008-09, ac yn gynnydd o 20% ar y sefyllfa yn 2007-2008, lle cafwyd 8,390 o ymrestriadau, pan ddechreuodd cyfrifoldeb y Ganolfan am faes Cymraeg i Oedolion yn y rhanbarth. Yn ystod yr un cyfnod gwelwyd cynnydd yn nifer y dysgwyr unigol a gofrestrwyd yn y ganolfan, o 5,657 yn 2007-2008 i 6,238 yn 2009-2010, sy'n gynnydd o 10%.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Rhagorol** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Mae nodweddion rhagorol yn perthyn i Ganolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru, sy'n cynnwys:

- cynnydd cyson mewn cyfraddau cwblhau dros y tair blynedd ddiwethaf sydd yn gyson uwch na chyfraddau cwblhau rhanbarthau eraill yng Nghymru;
- cysondeb addysgu o safon uchel ar draws y ddarpariaeth;
- darpariaeth eang a chydlynus ar draws y rhanbarth ar bob lefel gan gynnwys ar y lefelau uwch;
- amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu anffurfiol ar draws y ddarpariaeth;
- rheolaeth ac arweinyddiaeth gref ar bob lefel;
- systemau sicrhau ansawdd blaengar a thrylwyr;
- cyfundrefn hunanasesu o safon uchel sy'n gwrando ar farn ystod eang o ran ddeiliaid; a
- datblygiad proffesiynol parhaus o safon uchel sy'n ymateb yn briodol i anghenion tiwtoriaid.

### Rhagolygon gwella

Mae nodweddion rhagorol yn perthyn i Ganolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru, sy'n cynnwys:

- safonau da a rhagorol sydd yn dangos cynnydd cyson dros y tair blynedd ddiwethaf ar draws y rhanbarth;
- darpariaeth sydd wedi ei gwreiddio  mewn ymchwil trwyadl sy'n arwain y maes;
- y modd y mae'r ganolfan wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â thangyflawniad;
- strwythurau clir a chadarn yn eu lle i sicrhau gwelliant parhaus; a'r
- cynlluniau blaengar i ehangu cyfranogiad.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ganolfan ranbarthol:

A1 adeiladu ar y gwaith da i ymestyn cyfranogiad ar draws y rhanbarth;

A2 sicrhau bod dysgwyr yn derbyn adborth clir ar eu cynnydd a'r camau nesaf yn eu dysgu; a

A3 chynyddu'r defnydd a wneir gan diwtoriaid o adnoddau electronig yn ystod y gwersi.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y ganolfan yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd y ganolfan yn cael ei gwahodd i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig ar gyfer Estyn yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd gan yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Rhagorol |
|---|---|

**Safonau: Rhagorol**

Mae safonau cyflawniad dysgwyr canolfan ranbarthol y Gogledd yn rhagorol.

Gwelir cynnydd cyson yn y prif fesuryddion perfformiad dros y tair blynedd diwethaf ac maent oll bron uwchlaw canlyniadau canolfannau Cymraeg i oedolion yng Nghymru. Mae cyfraddau cwblhau dysgwyr y rhanbarth wedi cynyddu'n flynyddol dros y tair blynedd ddiwethaf. Roedd cyfraddau cwblhau dysgwyr un o'r darparwyr yn isel, ond erbyn hyn gwelir gwelliant cynyddol yn y cyfraddau hynny.

Mae nifer dysgwyr y rhanbarth sydd yn sefyll arholiadau CBAC wedi codi 20% dros y tair blynedd ddiwethaf ac mae canran uchel o ddysgwyr sy'n sefyll arholiadau CBAC yn ennill graddau A neu B. Mae hon yn nodwedd ragorol.

Mae 74 y cant o ddysgwyr y ganolfan yn dychwelyd i astudio cwrs Cymraeg arall, sydd yn gynnydd sylweddol er 2007–2008.

Mae gan ganolfan ystod dda o dystiolaeth i ddadansoddi'r gwahaniaethau mewn perfformiad grwpiau gwahanol o ddysgwyr a defnyddir y dystiolaeth hon yn effeithiol i godi safonau. Dengys y dystiolaeth bod perfformiad dynion ar y cyrsiau wedi gwella dros y tair blynedd ddiwethaf i fod ar yr un lefel a pherfformiad gwragedd. Mae'r ganolfan hefyd wedi gwneud astudiaeth o berfformiad pobl sydd dros 60 mlwydd oed ac ni welir unrhyw wahaniaeth yn eu perfformiad ar draws ystod o gyrsiau. Gwnaeth y ganolfan hefyd astudiaeth o sut mae amddifadedd yn effeithio ar gynnydd dysgwyr a gwelir bod dysgwyr ar draws pob lefel o amddifadedd yn llwyddo'n dda. Mae'r arsylwadau dosbarth yn cadarnhau hyn.

Mae bron pob dysgwyr yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn y gwersi, ac mewn lleiafrif o ddosbarthiadau yn gwneud cynnydd rhagorol. Maent oll yn ddysgwyr brwd sy'n eiddgar i gyfrannu ar lafar ymhob agwedd o'r wers ac yn datblygu eu medrau iaith a chyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn dda, ac weithiau'n rhagorol. Ar y cyfan, mae bron pob dysgwr yn dwyn i gof ffurfiau a ddysgwyd yn flaenorol, yn ynganu'n gywir ac yn siarad yn gynyddol hyderus yn ôl eu profiad a lefel y dosbarth. Mae dysgwyr yn darllen yn gywir ac yn deall cynnwys y testun yn dda. Mewn ychydig o ddosbarthiadau, gwelir dysgwyr yn ysgrifennu storïau estynedig o safon uchel.

Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, mae cynnydd y dysgwyr yn rhagorol. Ar y lefelau uwch maent oll yn siarad Cymraeg yn gywir ac yn estynedig.. Maent hefyd yn medru siarad yn ddigymell ac yn medru cynnal sgwrs estynedig mewn parau a grwpiau am broblemau'r byd cyfoes. Mae gan y dysgwyr hyn ystod helaeth o eirfa a defnyddiant gystrawen yr iaith yn gywir. Maent hefyd yn defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau beunyddiol a'u gwaith, lle bynnag y bo modd.

Mae medrau dysgu annibynnol y mwyafrif o ddysgwyr yn dda. Maent yn gwylio rhaglenni teledu a defnyddio'r we i ategu eu dysgu. Manteisia cyfran uchel o ddysgwyr ar ystod ragorol o gyfleoedd dysgu anffurfiol y tu allan i'r dosbarthiadau er mwyn atgyfnerthu eu medrau cyfathrebu. Mae'r ganolfan a'i phartneriaid yn cynnig ystod eang o gyfleodd dysgu anffurfiol ar draws Gogledd Cymru. Yno, mae'r dysgwyr yn ymarfer eu medrau iaith ac maent yn elwa'n fawr o ddefnyddio'u medrau Cymraeg mewn amrywiaeth dda o sefyllfaoedd cymdeithasol.

**Lles: Rhagorol**

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus iawn yn eu hamgylchedd dysgu ac maent yn ymwybodol o'r gweithdrefnau cwyno petai problem yn codi. Mae pob un o'r dysgwyr yn mwynhau'u dysgu'n fawr gan ddangos lefelau uchel iawn o gymhelliant. Maent yn cymryd rhan weithredol yn y gwersi. Mae'r rhan fwyaf yn hynod frwdfrydig ac yn cael hwyl wrth ddysgu. Mae llawer wedi ennill medrau dysgu annibynnol sy'n eu helpu i fod yn rhan o'r gymuned Gymraeg.

Mae llawer o ddysgwyr yn dangos dyfalbarhad da ac yn gweithio'n galed i gyrraedd eu nod. Maent yn cydweithio'n dda ac yn cyfranogi'n eithriadol o dda. Maent yn dangos parch at ei gilydd ac yn barod iawn i helpu ei gilydd pan fo angen. Maent yn mynychu dosbarthiadau'n dda ac yn cael cefnogaeth fuddiol gan ddysgwyr eraill pan gollant wersi er mwyn sicrhau eu bod yn cwblhau.

Gwneir defnydd da o ddulliau electronig gan lawer o ddysgwyr i gadw mewn cysylltiad â'i gilydd ac mae hyn yn ychwanegu at y teimlad o fod yn rhan o gymuned glos a hunan-gefnogol. Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud ymdrechion sylweddol iawn i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu gan barhau â'u hastudiaethau y tu allan i'r ystafell ddosbarth trwy fynychu ysgolion undydd, ysgolion haf a chyrsiau deuddydd.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn ymwybodol o fanteision y cyfleoedd rhagorol sydd ar gael i ymarfer eu Cymraeg ac yn gwneud defnydd da iawn ohonynt naill ai mewn gweithgareddau dysgu anffurfiol penodol neu gan ddefnyddio'u Cymraeg yn naturiol yn eu cymunedau lleol. Mae hyn yn eu helpu i gymhathu'n well ac yn cryfhau'r teimlad o fod yn rhan o'u cymunedau lleol. Maent yn defnyddio "Taith Iaith" yn dda i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r ganolfan a'i phartneriaid yn cynllunio'r cwricwlwm yn effeithiol iawn. Mae'r cwricwlwm yn eang ac yn cynnwys amrywiaeth dda o gyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r ganolfan yn sicrhau bod ystod eang o gyrsiau ar gael ar bob lefel, o gyrsiau lefel dechreuwyr i gyrsiau ar y lefelau uwch a hyfedredd, yn y rhan fwyaf o ardaloedd ar draws y rhanbarth. O ganlyniad, mae cyrsiau addas ar gael o fewn pellter teithio hawdd i ddysgwyr. Gall dysgwyr sydd bron yn rhugl wella eu sgiliau trwy fynychu dosbarthiadau sgwrsio a stori, neu drwy astudio hanes Cymru neu lenyddiaeth Gymraeg. Mae hon yn nodwedd ragorol.

Cydweithia'r ganolfan yn effeithiol iawn gydag ystod o bartneriaid i drefnu amrywiaeth dda o brofiadau allgyrsiol. O ganlyniad, mae ystod ardderchog o gyfleoedd dysgu anffurfiol ar gael i ddysgwyr. Mae nifer dysgwyr sy'n mynychu gweithgareddau allgyrsiol wedi cynyddu'n fawr dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae'r cyrsiau allgyrsiol yn cynnwys Paned a Sgwrs, Mynd am dro bach, Gweithdy Coginio a nosweithiau cymdeithasol. Mae nifer o fentrau eraill a chlybiau iaith hefyd, yn cynnig cefnogaeth dda iawn i ddysgwyr.

Cydweithia'r ganolfan yn agos iawn gydag ystod dda o sefydliadau sy'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg, i helpu dysgwyr ymarfer eu sgiliau iaith mewn amrywiaeth dda o weithgareddau. Mae'r sefydliadau hyn yn cynnwys Tŷ Newydd, sef Y Ganolfan Ysgrifennu Genedlaethol, Galeri Caernarfon sy'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau diwylliannol a Merched y Wawr. O ganlyniad, mae dysgwyr yn gwella eu sgiliau iaith a datblygu eu hyder trwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ochr yn ochr â siaradwyr Cymraeg.

Mae'r ganolfan hefyd yn gweithio'n dda iawn gyda sefydliadau eraill i gynyddu ac ehangu'r defnydd o'r iaith Gymraeg trwy'r mentrau fel prosiect iaith a threftadaeth gyda Menter Iaith Sir y Fflint. Mae'r mentrau hyn yn gwella cyfleoedd ar gyfer dysgwyr a siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith mewn amrywiaeth o gyd-destunau gwahanol. Gwelir enghreifftiau da mewn ychydig o ddosbarthiadau pellach o drafodaethau ar agweddau o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

Mae'r ganolfan a'i phartneriaid hefyd yn gweithio yn effeithiol iawn i gynnig cyfleoedd dysgu i ystod o grwpiau gwahanol o ddysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys rhieni sydd am gefnogi eu plant, dysgwyr sydd wedi colli eu swydd yn ddiweddar a dysgwyr sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd. Mae'r ganolfan yn gweithio'n dda gydag ystod o sefydliadau sector cyhoeddus i helpu eu gweithwyr i wella eu sgiliau iaith Gymraeg.

**Addysgu: Da**

Mae'r holl diwtoriaid yn cynllunio'u gwaith yn dda ac yn defnyddio ystod

d eang o weithgareddau dysgu effeithiol, er enghraifft drilio iaith newydd, gwylio a gwrando, gwaith llafar mewn pâr, darllen deialogau, darllen a deall ac ysgrifennu. Defnyddiant ystod dda o adnoddau addysgu o ansawdd uchel yn eu gwersi gan gynnwys cardiau fflach, dillad, propiau a thaflenni gwaith pwrpasol.

Mae'r holl diwtoriaid yn gwneud defnydd da iawn o'r Gymraeg ar gyfer addysgu a chyfathrebu gyda dysgwyr ar y lefel briodol. Maent yn cyflwyno geirfa newydd yn effeithiol ac yn ymyrryd yn dda i helpu dysgwyr ddeall patrymau iaith newydd.
Y mae'r rhan fwyaf o'r tiwtoriaid yn cyflwyno eu gwersi gyda brwdfrydedd ac egni ac mae cyflymder y gwersi yn dda. Maent yn atgyfnerthu dysgu blaenorol y dysgwyr yn dda cyn symud ymlaen i bwnc newydd.

Y mae'r rhan fwyaf o'r tiwtoriaid yn talu sylw da i ynganu dysgwyr ac yn cywiro gwallau llafar dysgwyr mewn modd sensitif. Maent hefyd yn gwneud defnydd da o dasgau gwaith cartref i wella sgiliau dysgwyr. Maent yn herio dysgwyr i ymestyn eu dealltwriaeth a'u defnydd o sgiliau iaith mewn ystod o gyd-destun gwahanol. Yn y

rhan fwyaf o achosion mae'r tiwtoriaid yn cynnig adborth da i ddysgwyr am eu gwaith cartref ac maent yn cywiro camgymeriadau ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn annog dysgwyr i gymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu anffurfiol y tu allan i'r dosbarth. Mae hyn yn fodd i helpu dysgwyr ddatblygu eu hyder i ddefnyddio eu sgiliau iaith mewn sefyllfaoedd gwahanol.

Mewn rhai achosion, mae tiwtoriaid yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr unigol mewn asesiadau ffurfiol. Fodd bynnag, yn gyffredinol nid yw tiwtoriaid yn defnyddio'r asesiadau hyn yn ddigon da i gynnig adborth i ddysgwyr am eu cynnydd a'u helpu i gydnabod eu cyflawniadau, neu gynnig y camau nesaf sydd angen ar ddysgwyr i wella eu perfformiad.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ganolfan yn gofalu am iechyd a lles y dysgwyr yn dda. Y mae pob darparwr yn cynnal asesiadau risg ar eu canolfannau. Mae'r wybodaeth am gymorth ariannol i ddysgwyr yn amlwg ar ffurf posteri, ac y mae gwersi ffurfiol a'r rhaglen Dysgu Anffurfiol yn rhoi sylw i hyrwyddo byw yn iach. Mae gan ddarparwyr y ganolfan bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu. Mae'r trefniadau ar gyfer delio a materion diogelu a threfniadau ar gyfer hyfforddi staff yn eu lle.

Mae'r gwasanaethau, gwybodaeth ac arweiniad arbenigol yn dda. Mewn rhai achosion, gwneir darpariaeth ragorol ar gyfer rhieni i allu mynychu dosbarthiadau tra bydd eu plant mewn meithrinfa. Mae rhai darparwyr yn cynnal cyfarfodydd rhagarweiniol neu sesiynau blasu cyn i'r dysgwyr ymrestru. Mae lefelau bodlonrwydd ymhlith y dysgwyr eu hunain yn uchel iawn.

Dengys ystadegau'r ganolfan fod dysgwyr a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol yn cael pob cymorth wrth sefyll arholiadau ac maent yn llwyddo. Dilyna'r ganolfan gyfundrefnau pwrpasol o safbwynt sgrinio sgiliau sylfaenol. Y mae'r ganolfan yn dechrau ar y broses o wella ymwybyddiaeth tiwtoriaid o anghenion dysgu ychwanegol trwy ddarparu hyfforddiant penodol ar gyfer tiwtoriaid y cymhwyster cenedlaethol. Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau gwelwyd enghreifftiau da o nodiadau gan diwtoriaid am anawsterau dysgu dysgwyr unigol a'r camau ar gyfer ymdrin â nhw. .

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Sefydla'r tiwtoriaid naws croesawgar ac ethos cynhwysol yn eu dosbarthiadau. Mae llwybrau dilyniant clir ar gael i'r dysgwyr ac mae'r llwybrau hyn yn agored i bawb. Ceir darpariaeth gyfartal i bob dysgwr. Cymera'r darparwyr gamau rhesymol i ddatblygu amgylchedd dysgu ag ethos Cymreig yn y dosbarthiadau.

Mae'r ganolfan yn datblygu systemau effeithiol i hyrwyddo a monitro cyfranogiad gwahanol grwpiau gan gynnwys dysgwyr o ardaloedd difreintiedig. Cymera'r ganolfan rôl flaengar wrth ddatblygu cysylltiadau gyda chymunedau ethnig lleiafrifol.

Mae rhan fwyaf yr adnoddau dysgu a'r adeiladau yn addas at eu diben. Mae'r adnoddau dysgu o safon dda yn cynnwys gwerslyfrau, ffeiliau unigol, gemau

pwrpasol ac weithiau chryno ddisgiau defnyddiol. Mewn ychydig ddosbarthiadau ceir byrddau gwyn rhyngweithiol, ond nid yw'r tiwtoriaid bob amser yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol ohonynt.

Mae rhan fwyaf yr ystafelloedd dysgu yn addas, ond mewn ychydig ohonynt, nid oes digon o le ar gael o ystyried maint y dosbarth.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae ymrwymiad parhaus i adolygu a sicrhau gwelliant yn treiddio holl waith y ganolfan. Mae hyn wedi arwain at welliannau arwyddocaol mewn agweddau pwysig fel gwella cyflawniadau a chynyddu niferoedd, ynghyd â gweithredu systemau monitro dysgu ac addysgu ar draws y ddarpariaeth.

Mae cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd wedi eu diffinio'n glir a gwna'r ganolfan ddefnydd effeithiol o fforymau i gynllunio a gweithredu blaenoriaethau. Mae'r modd y mae'r ganolfan yn ymgynghori â'i phartneriaid yn nodwedd flaengar ac wedi arwain at berchnogaeth ar bolisïau a systemau ar draws darparwyr trydydd parti.

Mae'r grŵp strategol, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o uwch-reolwyr pob darparwr, yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan y panel ansawdd a'r panel darparwyr. O ganlyniad, mae gan y grŵp strategol berchnogaeth ar bolisïau a gwybodaeth fanwl am berfformiad y ganolfan, ynghyd â pherfformiad cymharol y partneriaid yn unigol. Y mae hyn yn ei alluogi i chwarae rhan flaengar o ran pennu cyfeiriad strategol a gwneud penderfyniadau heriol ar agweddau fel dyrannu cyllid.

Mae'r ganolfan yn gwneud defnydd helaeth o ddata i fesur ei pherfformiad a nodi agweddau lle mae angen gwelliant. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiadau sy'n galluogi'r ganolfan i gymharu ei pherfformiad â chanolfannau eraill ac yn erbyn meincnodau sectorau eraill. Mae'r ganolfan yn flaengar yn y modd y mae'n herio tanberfformiad a chynorthwyo darparwyr i ddatblygu strategaethau ar gyfer gwelliant. O ganlyniad i hyn, mae cynnydd arwyddocaol wedi ei wneud yn lleihau'r amrywiaethau rhwng darparwyr mewn agweddau fel cyfraddau cwblhau a llwyddiant.

Mae'r ganolfan wedi cymryd penderfyniadau strategol anodd er lles y dysgwyr ac er mwyn codi safonau. Mae hyn yn nodwedd o ragoriaeth. Er enghraifft, maent wedi pennu cytundeb gyda darparwr a lleihau nifer y tiwtoriaid er mwyn cysondeb addysgu.

Mae cynllun strategol y ganolfan a'r cynllun datblygu ansawdd yn cynnwys blaenoriaethau gwelliant clir sy'n deillio o ymgynghori eang a materion yn codi o'r dadansoddiadau data a deilliannau hunan asesu. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu hadolygu'n barhaus ac yn gwneud defnydd da o ddangosyddion meintiol sy'n galluogi'r ganolfan i fesur cynnydd yn erbyn yr amcanion.

Mae'r ganolfan yn flaengar ym maes ymchwil i agweddau ar Gymraeg i Oedolion ac yn sicrhau bod y deilliannau yn cael eu hymgorffori mewn cynlluniau strategol, ynghyd â'u lledaenu ar lefel genedlaethol a rhyngwladol.

Mae blaenoriaethau cenedlaethol fel adfywiad economaidd, cynyddu cyfranogiad mewn ardaloedd difreintiedig a hyrwyddo defnydd dysgwyr o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol yn cael lle blaenllaw ym mlaenoriaethau'r ganolfan.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae system sicrhau ansawdd y ganolfan yn cynnig model sy'n werth ei efelychu mewn sectorau eraill. Mae hunanasesu wedi gwreiddio yng ngwaith dydd-i-ddydd y rheolwyr ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir iawn o'u rôl. Mae'r cynllun sicrhau ansawdd yn effeithiol. Mae rheolwyr yn cymryd camau priodol a chyflym i ddelio â thangyflawniad.

Mae gan y ganolfan system flaengar ac effeithiol ar gyfer arsylwi a cheir dadansoddiadau o safon uchel iawn o ansawdd yr addysgu a dysgu.

Mae'r ganolfan yn ymgysylltu'n dda iawn mewn ystod eang o gymunedau dysgu proffesiynol i feincnodi ei pherfformiad a rhannu arfer orau. Mae'r ganolfan yn cymryd mantais lawn o'r berthynas agos gyda'r sector addysg bellach o ran dadansoddi data a hunan arfarnu, yn cynnwys gwneud defnydd da iawn o gyfaill beirniadol.

Mae rheolwyr yn gwrando ac yn ymateb yn dda iawn i sylwadau dysgwyr a thiwtoriaid. Maent yn defnyddio peiriant pleidleisio ar y pryd yn effeithiol i gasglu barnau staff. Mae'r grŵp strategol hefyd yn gwneud defnydd da o adroddiadau Estyn i sicrhau gwelliannau ac yn arfarnu perfformiad y darparwr unigol yn ôl dosraniad y gyllideb yn effeithiol.

Mae rheolwyr wedi llunio system dda iawn i rannu arfer orau ymhlith pob aelod o staff.

Mae adroddiad hunanasesu'r ganolfan yn cynnig darlun cytbwys a dilys o'i gwaith. Mae chwech o'r barnau yn yr hunanasesiad yn cyfateb i farnau arolygiad Estyn. Yn achos y barnau eraill, mae barnau Estyn yn uwch na'r hyn a bennwyd gan y ganolfan.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae'r ganolfan wedi sefydlu partneriaeth gref â'i rhanddeiliaid yn seiliedig ar ymgynghori helaeth a'u cynnwys yn llawn wrth bennu cyfeiriad strategol y ganolfan. Arwydd clir o'r lefel uchel o ymddiriedaeth yw'r trefniadau arsylwi cytûn a'r modd y mae'r ganolfan yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â pherfformiad ar draws y ddarpariaeth. Mae'r ganolfan yn manteisio'n dda ar arbenigeddau darparwyr trydydd parti, yn cynnwys y defnydd o gyfaill beirniadol i graffu ar yr adroddiad hunan asesu. Y mae hefyd yn cydweithio â chanolfan Canolbarth Cymru ar gynllunio strategol, rheoli ansawdd, hyfforddiant a chynllunio darpariaeth.

Mae swyddogion y ganolfan yn gweithio gyda nifer o gyrff sydd yn ymwneud ag adfywio economaidd, yn cynnwys y Ganolfan Waith, Gyrfa Cymru a sefydliadau Cymunedau'n Gyntaf. Mae'r modd y mae'r ganolfan wedi sefydlu partneriaeth gyda'r North Wales Association for Multicultural Integration (NWAMI) yn esiampl o'r ffordd y mae'n mynd ati yn rhagweithiol i gynyddu cyfranogiad ymhlith is-grwpiau.

Mae’r ganolfan yn rhoi cymorth gwerthfawr i brif gyflogwyr yn y sector gyhoeddus. Yn ogystal â darparu dosbarthiadau Cymraeg yn y gweithle, mae’r ganolfan yn flaengar yn y modd y mae’n cynorthwyo’r cyflogwyr i lunio strategaethau iaith a chynyddu eu cynhwysedd i gyflawni nodau eu cynlluniau iaith Gymraeg.

Mae nifer o grwpiau cymunedol gwirfoddol yn cael eu cynrychioli ar banelau dysgu anffurfiol y ganolfan ac yn cyfrannu’n briodol at gynllunio’r ddarpariaeth.

**Rheoli adnoddau: Rhagorol**

Mae’r ganolfan yn rheoli ei hadnoddau yn ofalus iawn i sicrhau bod gwariant yn cael yr effaith gorau posib ar safonau. Defnyddia rheolwyr ystod eang o ddata er mwyn gosod nodau a thargedau pwrpasol i wella ansawdd. Ceir ystyriaeth briodol i flaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol wrth ddarparu adnoddau. Mae rhan fwyaf yr adeiladau a ddefnyddiwyd yn darparu amgylchedd dysgu addas.

Darpara’r ganolfan hyfforddiant pwrpasol i’w staff proffesiynol i sicrhau ansawdd darpariaeth sydd gyson yn uchel. Mae rheolwyr yn defnyddio’r staff yn effeithiol i sicrhau’r gorau o’u hamser a’u medrau. Rhoir hyfforddiant defnyddiol a chefnogaeth adeiladol i diwtoriaid dibrofiad.

Yng ngoleuni’r safonau ardderchog, mae’r ganolfan yn darparu gwerth rhagorol am arian.

## Atodiad 1

**Boddhad dysgwyr**

Derbyniodd Estyn 447 o holiaduron wedi'u llenwi gan ddysgwyr. Gofynnodd Estyn i Ganolfan Ranbarthol Gogledd Cymru gynnwys ystod o ddysgwyr o'u darpariaeth gyfredol. Llenwodd dysgwyr holiaduron yn wirfoddol a'u cwblhau yn ystod Tachwedd 2011.

Roedd pob dysgwr yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r ddarpariaeth. Mae pob un o'r ymatebwyr yn mwynhau'r dysgu ac yn ystyried eu bod yn cael eu haddysgu a'u cefnogi'n dda gan eu tiwtoriaid. Maent oll yn credu eu bod yn gwneud cynnydd da a bod eu dysgu yn helpu iddynt gyflawni eu hamcanion. Byddent oll yn argymell y darparwr i bobl eraill. Cred pob un o'r dysgwyr bod y staff yn rhoi adborth defnyddiol ar sut i wella eu gwaith.

Mae pob un o'r ymatebwyr yn ystyried bod eu dysgu yn helpu ymestyn eu gwybodaeth a'u medrau. Maent oll yn teimlo'n ddiogel yn y dosbarth ac yn cynorthwyo ei gilydd yn dda. Roedd bron pob dysgwr yn datgan y rhoddwyd gwybodaeth dda iddynt gan y darparwr wrth iddynt ddewis eu cyrsiau. Maent hefyd yn credu bod eu dysgu wedi helpu i wella eu hagwedd at gadw'n iach.

# Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Ann Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Liam Kealy | Arolygydd Tîm |
| Iolo Dafydd | Arolygydd Tîm |
| Angharad Rees | Arolygydd Tîm |
| Ceri Jones | Arolygydd Tîm |
| Geraint Wilson-Price | Arolygydd Cymheiriaid |
| Helen Prosser | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ifor Gruffydd | Enwebai’r Darparwr |